Gweddnewid Dyfodol Plant

...drwy greu llwybrau ar gyfer cyfranogiad diwylliannol

Strategaeth Amgueddfa Cymru i gefnogi cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn tlodi 2012-2015

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Rhagair

Mae anghydraddoldeb cyfoeth yn effeithio ar blant yn fwy nag unrhyw grŵp demograffig arall, ac mae'n ffaith syfrdanol bod un o bob tri o blant Cymru yn byw mewn tlodi – y lefel uchaf yn y Deyrnas Unedig. Er bod cyfleoedd bywyd, megis iechyd, cyfoeth, diogelwch a chyrhaeddiad addysgiadol wedi gwella ar gyfer y mwyafrif o blant dros y genhedlaeth ddiwethaf, mae cyfleoedd bywyd plant bregus a difreintiedig cyn waethed ag erioed, ac mewn nifer o achosion yn waeth. Ni ddylai plant orfod wynebu rhwystrau cyson wrth dyfu.

Mae Amgueddfa Cymru wedi bod yn gweddnewid dyfodol plant erioed drwy eu galluogi i brofi bywyd yn y gorffennol a'r presennol. Rydym wedi ymrwymo ers nifer o flynyddoedd i greu llwybrau er mwyn galluogi plant Cymru i gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol a chyfoethogi drwyddynt.
Dros y degawd diwethaf, mae Amgueddfa Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid sy'n cefnogi plant a theuluoedd mewn tlodi i brofi projectau sy'n agor llwybrau ac yn eu galluogi i ymgysylltu â diwylliant mewn ffordd gadarnhaol a chefnogol.

Gweddnewid Dyfodol Plant yw ein strategaeth ar gyfer adeiladu ar y projectau a'r partneriaethau hyn dros y tair blynedd nesaf ac ar gyfer y tymor hir. Cafodd ei datblygu wedi cyfnod o drafod ac ymgynghori trylwyr ac rydym yn cydnabod bod gwaith partneriaeth gyda mudiadau 'ar lawr gwlad' yn hanfodol os ydym i lunio llwybrau sy'n galluogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd mewn cartrefi incwm isel i gyfranogi yn ein gweithgareddau.

Bydd cynllun gweithredu yn cael ei gynhyrchu'n flynyddol fydd yn rhoi manylion pellach am brojectau penodol y byddwn yn ymgymryd â nhw er mwyn cyflawni'r nodau ac amcanion a amlinellir yn y strategaeth hon.

David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol

Cyd-destun

Mae treian o blant Cymru yn byw mewn tlodi. Mae byw mewn cartref incwm isel yn golygu peidio â chael digon o arian, dillad, cyfleoedd chwarae, bwyd, cefnogaeth, gwasanaethau neu bethau eraill sy'n angenrheidiol i gael bywyd iach. **Gall magwraeth mewn tlodi effeithio ar iechyd, addysg a dyfodol economaidd plentyn – eu cyfleoedd mewn bywyd. Mae'n rhaid wynebu tlodi ac anghydraddoldeb ymysg plant a phobl ifanc er mwyn rhoi cyfle iddynt wneud y gorau o'u bywydau**

Gosododd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant sy'n canolbwyntio ar y ffordd mae polisïau'r Llywodraeth at ei gilydd yn cyfrannu at dri amcan strategol: i) lleihau'r nifer o deuluoedd sy'n byw mewn cartrefi di-waith; ii) gwella sgiliau rhieni/gwarcheidwaid a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel er mwyn iddynt sicrhau swydd sy'n talu'n dda; iii) lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r tlotaf. Gan gydnabod y swyddogaeth allweddol sy'n cael ei chwarae gan bartneriaid y Llywodraeth yn y frwydr yn erbyn tlodi plant, roedd y Mesur yn gweithio tuag at y nod o ddileu tlodi plant, gofyniad statudol ledled awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ystod o gyrff cyhoeddus yng Nghymru gan gynnwys Amgueddfa Cymru.

Sefydlwyd Amgueddfa Cymru drwy Siarter Frenhinol ym 1907 ac mae'n elusen annibynnol ac yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. O ran y Mesur, mae Amgueddfa Cymru yn canolbwyntio ar:

lleihau anghydraddoldebau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a hamdden rhwng plant a rhwng rhieni plant (i'r graddau y mae'n angenrheidiol i sicrhau llesiant eu plant)

Amcan Siarter Amgueddfa Cymru yw 'gwella addysg y cyhoedd' a gweithio tuag at ein Gweledigaeth o fod yn amgueddfa ddysg o safon ryngwladol, felly rydym yn gyson yn datblygu ffyrdd newydd o ymgysylltu â'n hymwelwyr a'r rheini nad ydynt yn ymwelwyr, er mwyn i fwy a mwy o bobl allu mwynhau casgliadau'r genedl. Dechreuodd Amgueddfa Cymru ar y gwaith hwn drwy sefydlu Gwasanaeth Ysgolion ym 1949. Yn chwyldroadol yn ei ddydd, mae'r Gwasanaeth Ysgolion bellach yn rhan sylfaenol o waith Amgueddfa Cymru. Gyda dros 230,000 o ddisgyblion a myfyrwyr yn ymweld yn flynyddol, Amgueddfa Cymru yw darparwr addysg tu allan i'r ystafell ddosbarth mwyaf Cymru. Dros y ddeng mlynedd ddiwethaf mae Amgueddfa Cymru wedi datblygu ystod o dechnegau cyfranogol arloesol a pherthnasol er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi yn ein gwaith.

Mae **Gweddnewid Dyfodol Plant** yn gosod amcanion ar draws nifer o ffrydiau sy'n ceisio adeiladu ar arfer da a phartneriaethau cyfredol, a'u meithrin er mwyn cynyddu effaith a nerth gwaith Amgueddfa Cymru wrth fynd i'r afael â thlodi cyfranogiad. Mae mynd i'r afael yn effeithiol â thlodi plant yng Nghymru yn ymrwymiad allweddol hirdymor.

Mae Amgueddfa Cymru yn fudiad cenedlaethol sy'n cynnal saith o amgueddfeydd cenedlaethol a chanolfan gasgliadau ar draws Cymru **(gweler ar y chwith):**

1. Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
2. Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru
3. Amgueddfa Lechi Cymru
4. Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru
5. Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru
6. Amgueddfa Wlân Cymru
7. Y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol
8. Amgueddfa Genedlaethol y Glannau)

sy'n lleoliadau cyffrous ar gyfer addysg gydol oes ac yn ddelfrydol i helpu i wella cyrhaeddiad plant, mewn cydweithrediad â'u hathrawon a'u teuluoedd. Ym mhob un o'r amgueddfeydd cenedlaethol ac yn y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol, mae'r casgliadau amrywiol a'r cymunedau lleol yn dylanwadu ar yr agwedd at dlodi cyfranogiad sy'n cael ei fabwysiadu er mwyn ymateb i ffactorau ac anghenion lleol. Gydag ystod o safleoedd gwledig a threfol, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid lleol i sicrhau bod y dull mwyaf priodol yn cael ei ddefnyddio i ateb anghenion gwledig neu ddinesig ac unrhyw faterion perthnasol.

Llwyddiant cyfranogiad diwylliannol

Mae'r gwaith a ddatblygwyd gennym dros y degawd diwethaf yn seiliedig ar gorff sylweddol o dystiolaeth sy'n dangos y gall amgueddfeydd weithredu fel cyfryngau newid cymdeithasol a chynhwysiant (Sandell, 1998) a bod cyfranogiad yn llwyddo. Dengys tystiolaeth bellach bwysigrwydd gweithgareddau dysgu allgyrsiol er mwyn datblygu gallu plant i ymgysylltu ag addysg a chynyddu eu hyder yn eu gallu i ddysgu. Er enghraifft, mae ein profiadau ni, sy'n cael eu disgrifio yn yr astudiaethau achos drwy gydol y ddogfen hon, yn dangos y gall darpariaeth wedi'i thargedu, sy'n galluogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd difreintiedig i ymgysylltu â gweithgareddau diwylliannol, gael effaith enfawr ar hunan ddatblygiad, hunanhyder a dyheadau. Mae'r Cultural Learning Alliance hefyd wedi dangos effaith dysg ddiwylliannol ar fywydau plant a phobl ifanc ar sail adolygiad yr holl ddata Saesneg ei iaith ar raddfa fawr sydd ar gael, dan nawdd Sefydliad Paul Hamlyn. Mae hyn yn cynnwys y canfyddiadau bod dysgu drwy gelfyddydau a diwylliant yn gwella cyrhaeddiad ym mhob pwnc; bod cyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydol strwythuredig yn cynyddu gallu gwybyddol; bod myfyrwyr o deuluoedd incwm isel sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol yn yr ysgol dair gwaith yn fwy tebygol o gael gradd a bod myfyrwyr sy'n cyfranogi mewn celfyddydau yn yr ysgol ddwywaith yn fwy tebygol o wirfoddoli ac 20% yn fwy tebygol o bleidleisio fel oedolion ifanc.

Mae'r adroddiad 'Mynd i'r Afael â Thlodi ac Anfantais mewn Ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill' a gyhoeddwyd gan Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn nodi y gall ysgolion gynyddu cyrhaeddiad dysgwyr difreintiedig drwy godi uchelgais, dysgu tu hwnt i oriau'r ysgol, datblygu ffocws cymunedol a gweithio gyda'r gymuned, rhieni ac asiantaethau eraill. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi bod ysgolion effeithiol mewn ardaloedd difreintiedig yn gosod pwys mawr ar ddarpariaeth allgyrsiol a thu hwnt i oriau ysgol, gan gynnwys cyfoethogi diwylliannol, ac y gall cynlluniau Dysgu Teuluol, yn arbennig llythrennedd a rhifedd, godi cyrhaeddiad addysgiadol ar gyfer plant a rhieni. Gwelwyd y canfyddiad hwn hefyd yn adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree 'Brwydro yn erbyn tlodi ymhlith plant yng Nghymru: a oes strategaethau addysg effeithiol ar waith?' lle'r oedd y dystiolaeth yn dangos nad oedd modd i ysgolion ar eu pennau'u hunain oresgyn y cysylltiadau rhwng tlodi plant a chyrhaeddiad addysgiadol isel.

Dangoswyd gwerth cyfranogiad hefyd ar raddfa fawr drwy broject £7m 'Find Your Talent' wedi'i gydlynu gan CCE (Creativity, Culture & Education) fel cynllun peilot mewn deg o ardaloedd ledled Lloegr. Sefydlwyd y project i weld beth oedd ei angen i ddarparu profiadau diwylliannol o safon uchel i bob plentyn a pherson ifanc, beth bynnag ei oed neu allu. Cynigiwyd cyfranogiad rheolaidd i blant a phobl ifanc gyda'r celfyddydau a diwylliant, yn yr ysgol a thu hwnt, gan roi cyfle i bobl ifanc ddysgu chwarae offerynnau cerdd, perfformio ar lwyfan, mynychu perfformiadau a phrofi eu hetifeddiaeth ddiwylliannol. Roedd o gymorth iddynt ddatblygu sgiliau newydd a chael profiad gwaith yn y diwydiannau creadigol sy'n tyfu'n gyflym, ac fe gynorthwywyd cannoedd o filoedd o blant a phobl ifanc drwy roi mynediad iddynt at brofiadau diwylliannol – a gafodd effaith fawr ar ddatblygiad personol a datblygu sgiliau bywyd gan gynnwys creadigrwydd, datrys problemau a gwaith tîm.

Targedu ein gwaith

Mae Amgueddfa Cymru'n teimlo ei bod yn bwysig ymestyn ein gwaith ar gyfer y diffiniad ehangaf posibl o blant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel. Felly, mae **Gweddnewid Dyfodol Plant** wedi'i dargedu tuag at blant a phobl ifanc dan 25 oed a'u teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel. Wrth gyfeirio at deuluoedd, nid ydym yn sôn am bobl sy'n perthyn drwy waed neu briodas yn unig; credwn fod gan deuluoedd hawl i ddiffinio'u hunain. Beth bynnag yw eu cyfansoddiad, byddwn yn gwneud ein gorau i gefnogi pob teulu sy'n byw ar incwm isel i gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol, gan eu cefnogi i fyw dyfodol mwy cadarnhaol.

Mewn ymgais i ddeall pa rwystrau sy'n atal pobl rhag ymweld, mae Amgueddfa Cymru wedi cyflawni tair astudiaeth ymchwil dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, sy'n darparu gwybodaeth am resymau pobl o gefndiroedd llai cefnog dros beidio ag ymweld ag amgueddfeydd. Mae'r astudiaethau hyn yn dangos mai'r prif rwystrau yw ymwybyddiaeth isel o'r hyn sydd gan amgueddfa i'w gynnig; rhagdybiaethau o syniadau ystrydebol o amgueddfeydd fel llefydd diflas, llychlyd a llonydd, yn llawn gwrthrychau rhyfedd mewn blychau gwydr ac ystyriaethau trafnidiaeth. Mae pob un o'r ffactorau hyn wedi'u hystyried wrth ddatblygu ein gwaith project yn y maes hwn dros y degawd diwethaf. Mae astudiaethau eraill, gan gynnwys rhaglen CCE 'Finding your talent', sydd wedi edrych ar rwystrau a sut i'w goresgyn, yn ategu'r math yma o ganfyddiadau.

Er mwyn sicrhau bod ein gwaith ar dlodi cyfranogiad yn cael ei dargedu at y plant a theuluoedd sydd fwyaf angen ein mewnbwn, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â mudiadau lleol ar lawr gwlad mewn ardaloedd megis partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn argymell strwythurau newydd ar gyfer gweithredu rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gyda mwy o ffocws ar dystiolaeth o effaith gweithgareddau wedi'u hariannu'n lleol ar dri chanlyniad strategol: Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau Dysgu a Chymunedau Iach. Mae blaenoriaethau Dysgu Cymunedau yn Gyntaf yn cynnwys annog mwy o aelodau o'r gymuned (yn arbennig o grwpiau sy'n cael eu gweld fel rhai anodd cyrraedd atynt) i ddilyn hyfforddiant sgiliau sylfaenol, TGCh a sgiliau allweddol; gwella sgiliau magu plant; cefnogi ymgysylltiad y teulu mewn addysg; cefnogi pobl ifanc i wireddu eu potensial yn yr ysgol; gweithio gyda chyfleusterau addysgiadol i gefnogi gweithgareddau cwricwlwm amgen ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; cefnogi pobl leol i gael mynediad at gyflogaeth a hyfforddiant; dysgu trwy'r celfyddydau a diwylliant ac annog pobl ifanc mewn gweithgareddau cadarnhaol (e.e. lleihau ymddygiad gwrth-gymdeithasol). Mae Amgueddfa Cymru yn medru cefnogi darpariaeth nifer o'r meysydd hyn.

Mae data o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 hefyd yn rhoi syniad o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Hefyd gellir defnyddio'r ganran o ddisgyblion sy'n gymwys i gael cinio ysgol am ddim fel dangosydd o gefndir tlodi pob ysgol. Dyma ddangosydd pwysig i ni wrth sicrhau darpariaeth wedi'i thargedu.

Amcan Strategol 1

Gweddnewid Dyfodol Plant ... drwy ymweliadau ysgol â'u hamgueddfeydd cenedlaethol

Astudiaeth Achos: Project Start

Mae Amgueddfa Cymru wedi sicrhau arian ychwanegol er mwyn gweithio gydag ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd difreintiedig yn economaidd, lle na fu perthynas arbennig o gryf rhyngom yn y gorffennol. Darparodd y fenter nawdd i bob ysgol ymweld ddwywaith â'r Amgueddfa, gan roi cyfle i weithio gydag artistiaid yn yr Amgueddfa ac yn yr ysgol, gydag arddangosfa derfynol o'u gwaith yn yr Amgueddfa.

Ymysg yr amcanion: codi hyder bob plentyn i ymweld â'r Amgueddfa, annog pob un i berchnogi'r Amgueddfa a chreu project cynaliadwy, gan annog disgyblion i ymweld â'r Amgueddfa gyda'u teuluoedd. Mae cannoedd o blant rhwng 7 ac 11 oed wedi bod yn rhan o'r project, gyda'u hathrawon a rhai teuluoedd. Dywedodd y mwyafrif llethol o ddisgyblion y byddent yn hoffi ymweld eto. O ganlyniad i lwyddiant y flwyddyn gyntaf, mae Sefydliad y Tywysog dros Blant a'r Celfyddydau wedi ariannu gwaith am ddwy flynedd arall.



Camau gweithredu 2012-2015	Canlyniadau dymunol
Gweithio gyda mudiadau partner i ddatblygu projectau yn seiliedig ar gasgliadau wedi'u targedu'n benodol lle mae Amgueddfa Cymru yn datblygu perthynas gyda nifer o ysgolion (naill ai ar sail gymhwysedd prydau ysgol am ddim uchel neu feini prawf ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf).	Disgyblion mewn ysgolion nad ydynt wedi ymweld ag amgueddfeydd cenedlaethol o'r blaen yn ymgysylltu â'r casgliadau cenedlaethol am y tro cyntaf. Plant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yn cael mwy o hyder, hunan-barch, uchelgais, gwell sgiliau cymdeithasol a meddwl a phrofiad o gyfleoedd cyffrous i gyfranogi mewn gweithgareddau creadigol. **Mesur:** tystiolaeth bersonol gan gyfranogwyr am yr effaith.
Parhau i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru at fynediad am ddim i amgueddfeydd cenedlaethol drwy ddarparu deunydd marchnata, gwybodaeth ac adnoddau wedi'u targedu at ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig, er mwyn sicrhau ymweliad llwyddiannus gydag un o'r amgueddfeydd cenedlaethol ar draws ystod o feysydd cwricwlwm.	Mwy o ysgolion yn deall perthnasedd amgueddfeydd cenedlaethol, ac o ganlyniad, yn galluogi eu disgyblion i gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol. Plant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yn cael mwy o hyder, hunan-barch, uchelgais, gwell sgiliau cymdeithasol a meddwl a phrofiad o gyfleoedd cyffrous i gyfranogi mewn gweithgareddau creadigol. **Mesur:** cynyddu'r nifer o ymweliadau gan ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog sydd o fewn pellter teithio i amgueddfa genedlaethol a thystiolaeth bersonol gan gyfranogwyr am yr effaith.
Fel rhan o'n gwaith llunio proffil ymwelwyr rheolaidd, cynnal ymchwil pellach i'r rhwystrau sy'n atal ysgolion o fewn pellter teithio rhag ymweld ag amgueddfeydd cenedlaethol. Gweithio gydag ysgolion a mudiadau partner i ddatblygu atebion er mwyn goresgyn rhwystrau rhag ymweld â'r amgueddfeydd cenedlaethol, e.e. costau teithio.	Mwy o ysgolion yn medru ymweld ag amgueddfeydd cenedlaethol, ac o ganlyniad, yn galluogi eu disgyblion i gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol. Plant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yn cael mwy o hyder, hunan-barch, uchelgais, gwell sgiliau cymdeithasol a meddwl a phrofiad o gyfleoedd cyffrous i gyfranogi mewn gweithgareddau creadigol. **Mesur:** cynyddu'r nifer o ymweliadau gan ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog sydd o fewn pellter teithio i amgueddfa genedlaethol a thystiolaeth bersonol gan gyfranogwyr am yr effaith.

Cyflawni amcan Tlodi Plant Llywodraeth Cymru: lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, **addysg** a chanlyniadau economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r tlotaf.

Amcan Strategol 2

Gweddnewid Dyfodol Plant... drwy brojectau'r amgueddfa ar y we

Astudiaeth Achos: Bylbiau'r Gwanwyn/Scan – addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy

Yn ystod 2010, yn dilyn ymgyrch wedi'i dargedu yn benodol at ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, cyfranogodd 24 o ysgolion yn y project Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion – arbrawf ledled Cymru ble mae disgyblion ysgolion cynradd yn edrych ar effaith newid hinsawdd ar amseroedd blodeuo bylbiau, sydd hefyd yn annog datblygu sgiliau gwyddoniaeth a TG. Cyfranogodd cyfanswm o 1,048 o ddisgyblion Cymunedau yn Gyntaf ac roedd enillwyr y wobr gyntaf a'r ail wobr yn dod o ysgolion Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r project wedi cynnwys 63 o ysgolion ledled Cymru – 38% ohonynt o ysgolion Cymunedau yn Gyntaf.

Astudiaeth Achos: Gweithio gyda Cymunedau yn Gyntaf

Mae Amgueddfa Lechi Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â Cymunedau yn Gyntaf Bowydd a Rhiw (Blaenau Ffestiniog) i gynnig cyfres o weithdai celfyddydau gweledol i bobl ifanc yr ardal.

Y prif amcanion yw:

- datblygu sgiliau pobl ifanc ym maes celf a thechnoleg
- defnyddio artistiaid a hwyluswyr lleol i ddangos y gellir ennill bywoliaeth yn y Gogledd ym maes y celfyddydau gweledol
- annog ymdeimlad o falchder yn yr ardal gan ei defnyddio fel ysbrydoliaeth ar gyfer y gwaith
- creu arddangosfa amlgyfrwng i'w chynnal yn Amgueddfa Lechi Cymru ac arlein trwy wefan Casgliad y Werin Cymru.

Camau gweithredu 2012-2015	Canlyniadau dymunol
Gweithio gyda'n partneriaid ar Casgliad y Werin Cymru i godi proffil y fenter fel y bydd plant a theuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yn troi at y safle'n reddfol, ac i ddarparu projectau sy'n estyn at y rhai nad ydynt o fewn pellter teithio i un o'r amgueddfeydd cenedlaethol.	Pobl ifanc nad ydynt wedi gweithio ar brojectau amgueddfeydd cenedlaethol yn y gorffennol yn ymgysylltu drwy adnodd ar y we am y tro cyntaf. Plant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yn cyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol/gweithgareddau ar sail sgìl yn llawn brwdfrydedd ac yn cael eu hysgogi gan y sialensiau. **Mesur:** rhagor o ysgolion yn ymgysylltu a thystiolaeth bersonol
Parhau â phroject SCAN (gweler yr astudiaeth achos) gan wneud ymdrech arbennig i ddatblygu projectau ar y rhyngrwyd gydag ysgolion nad ydynt yn agos iawn at amgueddfeydd cenedlaethol.	Disgyblion nad ydynt wedi gweithio ar brojectau amgueddfa genedlaethol yn ymgysylltu drwy adnodd ar y we am y tro cyntaf. Plant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yn cyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol/gweithgareddau ar sail sgìl yn llawn brwdfrydedd ac yn cael eu hysgogi gan y sialensiau. **Mesur:** rhagor o bobl ifanc ddisgyblion yn ymgysylltu a thystiolaeth bersonol.

Cyflawni amcan Tlodi Plant Llywodraeth Cymru: lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, **addysg** a chanlyniadau economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r tlotaf.

Amcan Strategol 3

Gweddnewid Dyfodol Plant... drwy ymweld â'u hamgueddfeydd cenedlaethol gyda'u teuluoedd

Astudiaeth Achos: Effaith mynediad am ddim

Mae mynediad am ddim wedi cael effaith ar blant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Bu cynnydd yn y nifer o bobl o'r categori C2DE sy'n ymweld ag amgueddfeydd cenedlaethol ers cyflwyno mynediad am ddim ym mis Ebrill 2001. Cyn mynediad am ddim, roedd llai na 250,000 o ymweliadau gan y grwpiau hyn. Dros ddeng mlynedd y polisi, cododd y ffigwr i dros 500,000 – un o bob tri ymweliad. Rydym yn llwyddo i ddenu llawer mwy o bobl o gefndir C2DE o gymharu ag atyniadau diwylliannol eraill yng Nghymru, ac yn arbennig amgueddfeydd cenedlaethol eraill yn y DU.

Astudiaeth Achos: Ymgynghoriad Creu Hanes yn Sain Ffagan – ymgysylltu â phobl ifanc

I helpu i ysgogi ailddatblygiad arfaethedig Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, rydym wedi ymgynghori â nifer fawr o bobl ifanc, o ystod o fudiadau a meysydd gan gynnwys plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi.

Rydym wedi eu cynnwys mewn gweithgareddau ymarferol yn yr Amgueddfa gan gynnwys ymweliad dros nos arbrofol gan ofyn am atgofion a rhagdybiaethau, yn ogystal â'u hawgrymiadau a'u cyngor. Cafwyd syniadau am ffyrdd o hysbysebu, y mathau o weithgareddau y dylid eu trefnu, sut dylid dehongli'r safle a'r hyn byddent yn hoffi ei weld a'i wneud.

Hefyd dywedwyd wrthym am yr hyn yr oeddent yn ei werthfawrogi am yr Amgueddfa. Dywedodd un o'r arweinwyr ieuenctid a ddaeth gyda nhw, 'Roedd yn ffordd dda o gael cysylltiad rhwng y bois a'r project … Roeddent yn falch iawn o'u gwaith.'

Camau gweithredu 2012-2015	Canlyniadau dymunol
Gweithio i fwyhau effaith ymrwymiad Llywodraeth Cymru at fynediad am ddim i'r amgueddfeydd cenedlaethol ar blant a theuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel, drwy dargedu gwaith marchnata'r neges 'mynediad am ddim' mewn ardaloedd difreintiedig o fewn pellter teithio i'r amgueddfeydd cenedlaethol.	Plant a theuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yn dod yn fwy ymwybodol o'r amgueddfeydd cenedlaethol fel llefydd i ymweld â nhw yn rhad ac am ddim, gan ymweld o ganlyniad. Plant a theuluoedd yn llawn brwdfrydedd ac ysgogiad yn sgil eu hymgysylltiad diwylliannol. **Mesur:** Rhagor o blant a theuluoedd o ardaloedd difreintiedig yn ymweld a thystiolaeth bersonol.
Cynhyrchu deunyddiau ar gyfer yr amgueddfeydd cenedlaethol gan dynnu sylw at yr agweddau 'teuluol', a darparu cyngor ac arweiniad i rieni ar ffyrdd o wneud y gorau o'u hymweliadau gyda'u plant.	Rhieni plant sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yn deall sut y gellir mwynhau ymweliad hwyliog a llwyddiannus â'u hamgueddfeydd cenedlaethol, a rhagor yn ymweld o ganlyniad. Plant a theuluoedd yn llawn brwdfrydedd ac ysgogiad yn sgil eu hymgysylltiad diwylliannol. **Mesur:** Rhagor o blant a theuluoedd o ardaloedd difreintiedig yn ymweld a thystiolaeth bersonol.
Adolygu ein strategaeth ar gyfer rhaglennu arddangosfeydd ac ymgynghori arni er mwyn sicrhau bod y rhaglen o arddangosfeydd cyfnewidiol yn cynnwys arddangosfeydd addas i blant a theuluoedd, a pharhau i ddatblygu rhaglen o ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar y casgliadau a gweithdai wedi'u targedu at deuluoedd. Fel rhan o'n gwaith proffil ymwelwyr rheolaidd, cynnal ymchwil pellach i'r rhwystrau sy'n atal teuluoedd o fewn pellter teithio rhag ymweld ag amgueddfeydd cenedlaethol. Gweithio gyda theuluoedd a mudiadau partner i ddatblygu atebion er mwyn goresgyn rhwystrau rhag ymweld â'r amgueddfeydd cenedlaethol, e.e. costau teithio a pharcio.	Rhagor o blant a theuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yn ymweld ag amgueddfeydd cenedlaethol, ac o ganlyniad yn cyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol. Llais cryfach i blant a phobl ifanc ynghylch y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig a'r projectau a gyflawnir gan ein hamgueddfeydd – a sicrhau y caiff y llais ei glywed. **Mesur:** rhagor o ymweliadau gan deuluoedd mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog sydd o fewn pellter teithio i amgueddfa genedlaethol; nifer y bobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yn cael eu cynrychioli ar y paneli; y ddau wedi'u hategu gan dystiolaeth bersonol.

Cyflawni amcan Tlodi Plant Llywodraeth Cymru: lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, **addysg** a chanlyniadau economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r tlotaf.

Amcan Strategol 4

Gweddnewid Dyfodol Plant... drwy brojectau cymunedol

Astudiaeth Achos: Big Pit a Six Bells

Yn sgil gwaith ar y cyd rhwng Big Pit a chymuned Six Bells, ar themâu addysg, adfywio drwy dwristiaeth, amgylchedd ac iechyd, mae pobl leol wedi cael cyfle i weithio gydag ystod ehangach o fudiadau a grwpiau. Disgrifiodd Mair Sheen, o Cymunedau yn Gyntaf Six Bells, y ffordd y mae'r Amgueddfa wedi gweithio gyda'r gymuned: 'Drwy ein partneriaeth gyda Big Pit rydym wedi sefydlu perthynas waith gadarnhaol, sy'n sylfaen i strategaeth adfywio gyffredinol Cymunedau yn Gyntaf Six Bells ar gyfer yr ardal leol ac ehangach.'

Drwy'r project hwn, roedd modd i Cymunedau yn Gyntaf Six Bells dderbyn cefnogaeth i ddatblygu Cofeb newydd i Lowyr. Ymwelodd artist â Big Pit i gyfarfod cyn-lowyr, a chyn-lowyr Six Bells yn benodol, i gael dealltwriaeth ddyfnach o effaith mwyngloddio ar gymunedau a chasglu gwrthrychau i greu agweddau ar y gofeb. Hefyd datblygwyd projectau gydag ysgolion lleol.

Mae Big Pit hefyd yn gweithio gyda Cymunedau yn Gyntaf Six Bells i ddatblygu Llwybr Ebwy Fach. Mae'r project hwn yn cysylltu Cwm Ebwy Fach drwy gyfres o lwybrau cerdded, llwybrau beicio ac arwyddion. Nod y grŵp yw creu llwybrau cerdded ac arwyddion i gysylltu Blaenau Gwent â Thorfaen, a chynnig gwell mynediad at Big Pit a safle Treftadaeth y Byd, Blaenafon.

Astudiaeth Achos: Gwychder Dibwys? – Dysgu drwy Ddiwylliant a Chreadigrwydd

Cynlluniwyd Gwychder Dibwys? i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc na fyddant yn eu cael fel arall. Wrth wraidd pob agwedd o'r project mae ymrwymiad at gefnogi addysg alwedigaethol a chymunedol; ymestyn addysg bersonol a chymdeithasol; cynorthwyo i ddatblygu cyfranogiad a sgiliau dinasyddiaeth; cryfhau cefnogaeth allgymorth ar gyfer pobl ifanc difreintiedig; gwella ystod a safon cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc a datblygu mentrau sy'n annog ymgysylltiad mewn dysgu a hyfforddi.

Mae Gwychder Dibwys? yn cyfuno'r celfyddydau, amgueddfeydd a fframwaith gweledigaeth Cymunedau yn Gyntaf mewn ffordd arloesol i ddarparu cyfleoedd newydd i bobl ifanc. Mae'r project yn creu ystod o brofiadau sy'n galluogi cyfranogwyr i feithrin sgiliau wrth edrych ar eu diwylliant a'u treftadaeth eu hunain, yn ogystal â diwylliant a threftadaeth pobl eraill. Mae'r cyfranogwyr yn creu gwrthrychau, arddangosiadau, delweddau, ffilmiau, arddangosfeydd ac adnoddau amlgyfrwng, oll yn cyflwyno barn a syniadau pobl ifanc am emwaith a 'bling'. Mae'r gweithgareddau yn hybu hunan hyder ymysg y grŵp targed, yn helpu i adeiladu hunaniaeth o fewn cymunedau ac yn darparu ffordd o ddathlu gwaith a llwyddiannau pobl ifanc difreintiedig.

Mae Amgueddfa Cymru wedi uno grwpiau o bobl ifanc o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn ein hamgueddfeydd ledled Cymru i weithio gydag artistiaid a phobl broffesiynol o'r Amgueddfa i greu 'bling' – unrhyw beth o fodrwy syml i addurniadau corff cymhleth. Bydd y bobl ifanc hefyd yn gweld eu gwaith yn cael ei arddangos yn yr amgueddfeydd cenedlaethol yn ystod Gorffennaf-Medi 2012. Bydd y grwpiau yn mynd tu ôl i'r llenni yn ein hamgueddfeydd er mwyn dewis darnau i'w cynnwys yn eu harddangosfa, a dysgu am y gemwaith, yr arteffactau a'r gemau yr ydym yn eu cadw.

Ariannwyd Gwychder Dibwys? drwy Gronfa Ganlyniadau Cymunedau yn Gyntaf.

Astudiaeth Achos: Ar Dir Cyffredin

Roedd Ar Dir Cyffredin (2005) yn fenter gelfyddydol a threftadaeth sylweddol ar gyfer grwpiau o bobl ifanc yn Rhondda Cynon Taf, Ceredigion, Torfaen, Caerffili ac Abertawe, mewn ardaloedd sy'n cael eu cyfri fel rhai difreintiedig. Gweithiodd y grwpiau i gyd gydag artistiaid profiadol i edrych ar agweddau ar eu treftadaeth ddiwylliannol a chreu gwaith project o safon uchel yn y cyfrwng o'u dewis – o animeiddio i gynllunio gwefannau.

Roedd pob project Ar Dir Cyffredin yn cynnwys proses a chynnyrch. Roedd y broses yn cynorthwyo cyfranogwyr i ennill sgiliau 'meddal' a 'chaled', megis hunan-barch, gwaith grŵp, ymchwil, cyfathrebu, cyflwyno, ffotograffiaeth, peintio, ffilm, cerflunio, dylunio gwefannau a recordio sain. Roedd strwythur cwrs Rhwydwaith y Coleg Agored yn annog ystyriaeth, adnabyddiaeth a chofnod o'r profiadau dysgu hyn. Roedd y cynnyrch – y gwaith celf – yn ganlyniad amlycach, a oedd bob tro yn rhywbeth i ymfalchïo ynddo ac yn galluogi cyfranogwyr i ddangos i'w cyfoedion, teuluoedd, cymunedau a'r cyhoedd beth sy'n bosibl iddynt ei gyflawni. Arddangoswyd yr holl waith celf o safon uchel gan Amgueddfa Cymru er mwyn i filoedd o bobl werthfawrogi sgiliau creadigol pobl ifanc wrth archwilio'u lle yn y byd a dylanwadau'r gorffennol.

Ariannwyd y project gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Lloyds TSB, Ymddiriedolaeth Ernest Cook ac Amgueddfa Cymru.



Camau gweithredu 2012-2015	Canlyniadau dymunol
Sicrhau cyllid ychwanegol i ymestyn y math o waith a wneir drwy broject Gwychder Dibwys? (gweler yr astudiaeth achos) ymhellach er mwyn parhau i weithio gyda phobl ifanc hyd at 25 oed, y tu allan i'r cyd-destun dysgu ffurfiol, ac yn arbennig ceisio targedu pobl ifanc sydd Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant, neu mewn perygl o hynny.	Pobl ifanc sydd Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant, neu mewn perygl o hynny yn cael cyfleoedd gwerthfawr i greu gwrthrychau, arddangosfeydd, delweddau, ffilmiau, arddangosfeydd ac adnoddau amlgyfrwng, oll yn cyflwyno barn a syniadau pobl ifanc am emwaith a 'bling'. **Mesur:** y nifer sy'n cyfranogi a thystiolaeth bersonol.
Cynnal fforymau rheolaidd i ieuenctid ym mhob amgueddfa genedlaethol fel y gall pobl ifanc wneud cyfraniad sylweddol at ddylunio a chyflawni rhaglenni sy'n canolbwyntio ar gymunedau.	Plant a phobl ifanc o gatrefi incwm isel yn cael magu hyder, hunan-barch, uchelgais, gwell sgiliau cymdeithasol a meddwl ac yn profi cyfleoedd cyffrous i gyfranogi mewn gweithgareddau creadigol. Y rhaglen yn cael ei thargedu'n fwy priodol. **Mesur:** tystiolaeth bersonol.
Datblygu projectau yng Nghymoedd y De ac mewn ardaloedd difreintiedig dinesig yng Nghymru i annog ymgysylltiad rhwng plant a theuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel â'u hamgueddfeydd cenedlaethol.	Plant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel yn cael magu hyder, hunan-barch, uchelgais, gwell sgiliau cymdeithasol a meddwl ac yn profi cyfleoedd cyffrous i gyfranogi mewn gweithgareddau creadigol. **Mesur:** tystiolaeth bersonol.
Datblygu projectau peilot gyda grwpiau penodol o blant sy'n byw mewn cartrefi incwm isel, gan dargedu eu hanghenion penodol gan gynnwys plant 'mewn gofal' a phlant Sipswn a Theithwyr.	Plant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel yn cael magu hyder, hunan-barch, uchelgais, gwell sgiliau cymdeithasol a meddwl ac yn profi cyfleoedd cyffrous i gyfranogi mewn gweithgareddau creadigol. **Mesur:** tystiolaeth bersonol.
Byddwn yn datblygu project peilot ar gyfer gwyliau'r ysgol naill ai i blant talentog sy'n byw mewn cartrefi incwm isel neu blant y mae angen cefnogaeth arnynt wrth symud o addysg gynradd i addysg uwchradd.	Plant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel yn cael magu hyder, hunan-barch, uchelgais, gwell sgiliau cymdeithasol a meddwl ac yn profi cyfleoedd cyffrous i gyfranogi mewn gweithgareddau creadigol. **Mesur:** tystiolaeth bersonol.

Cyflawni amcan Tlodi Plant Llywodraeth Cymru: lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, **addysg** a chanlyniadau economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r tlotaf.

Amcan Strategol 5

Gweddnewid Dyfodol Plant... drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau

Astudiaeth Achos: Ymarfer Saesneg yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru

Yn dilyn cyfarfod llwyddiannus iawn gyda swyddog datblygu lleol Cymunedau yn Gyntaf, daeth yn glir bod uchelgais yr Amgueddfa i ddatblygu adnoddau ar gyfer ymweliadau gan bobl sy'n dysgu Saesneg yn cyfateb ag uchelgais y bartneriaeth i barhau i gefnogi gwersi Saesneg i bobl leol.

Datblygwyd cyfres o wersi yn seiliedig ar adeiladau a chasgliadau Sain Ffagan a oedd yn cefnogi gwaith y myfyrwyr mewn nifer o ffyrdd: yn rhoi cyfle iddynt ymarfer eu Saesneg mewn amgylchedd newydd; darparu testunau sgwrs newydd; eu cynorthwyo i ddysgu mwy am hanes a diwylliant Cymru a rhoi deunyddiau iddynt ddatblygu eu sgiliau TG.

Cafwyd ymweliadau wythnosol am bum wythnos, ac archwiliodd y myfyrwyr, sy'n hanu o ystod eang o wledydd, agweddau arbennig ar waith yr Amgueddfa gyda'r Swyddog Addysg.

Dywedodd tiwtor y grŵp bod y profiad yn 'ffordd iddynt ddechrau gweld Cymru fel eu gwlad nhw'. Roedd y cyfle i ddysgu tu allan i'r ystafell ddosbarth yn rhoi hwb newydd i fyfyrwyr ac yn creu brwdfrydedd newydd dros ddysgu.

Camau gweithredu 2012-2015	Canlyniadau dymunol
Gweithio gyda phartneriaid o amgylch ein hamgueddfeydd cenedlaethol a'u cynorthwyo, lle bo'n bosibl, i ddarparu sgiliau cefnogol wrth fagu teulu. Cydweithio â chynlluniau dysgu teuluol Awdurdodau Lleol, gyda nawdd Llywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar wella sgiliau sylfaenol rhieni a'u plant. Mae Estyn wedi eu disgrifio fel 'arf effeithiol i dorri'r cylch o dangyflawni drwy wella sgiliau llythrennedd a rhifedd yn y gymuned.'	Rhieni ifanc yn ennill sgiliau a hyder yn eu gallu wrth ochr eu plant. **Mesur:** niferoedd sy'n cyfranogi a thystiolaeth bersonol.
Datblygu project peilot gyda thîm Dechrau'n Deg gyda'r nod o weithio gydag ystod ehangach o dimau Dechrau'n Deg yng nghyffiniau'r amgueddfeydd cenedlaethol. Mae Dechrau'n Deg yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys rhaglenni magu plant yn ogystal â sesiynau iaith a chwarae ar gyfer plant 0-3 oed a'u teuluoedd.	Rhieni ifanc yn meithrin sgiliau ac yn magu hyder yn eu gallu ochr yn ochr â'u plant. **Mesur:** tystiolaeth bersonol.
Dileu'r rhwystrau rhag cyflogaeth a all atal rhieni incwm isel rhag ystyried Amgueddfa Cymru fel cyflogwr. Bydd hyn yn cynnwys targedu hysbysebion swyddi gwag mewn ardaloedd â nifer uchel o blant yn byw mewn cartrefi incwm isel, hyrwyddo ein cynllun benthyciadau teithio yn ein hysbysebion swyddi a hyrwyddo ein cynllun Talebau Gofal Plant yn ystod y broses recriwtio.	Rhagor o geisiadau gan bobl ifanc a rhieni sy'n byw mewn cartrefi incwm isel wrth iddynt ddod yn ymwybodol o atebion i rwystrau a fyddai fel arall yn eu hatal rhag gweld bod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru yn bosibl. **Mesur:** nifer y ceisiadau a ddaw i law gan bobl ifanc a rhieni sy'n byw mewn cartrefi incwm isel.
Darparu cyfleoedd hyfforddiant a lleoliadau gwaith ar gyfer pobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel (hyrwyddo'r ffaith y gellir talu costau teithio, bwyd a gwisg, lle bo angen).	Pobl ifanc a rhieni yn magu hyder mewn sgiliau cyfweliad. **Mesur:** niferoedd sy'n cyfranogi yn y cynllun a niferoedd sy'n symud ymlaen i fod yn llwyddiannus mewn cyfweliadau ac ati.

Cyflawni amcan Tlodi Plant Llywodraeth Cymru: lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, **addysg** a chanlyniadau economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r tlotaf.

Amcan Strategol 6

Gweddnewid Dyfodol Plant... drwy gefnogi staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru fel eiriolwyr a llysgenhadon i fynd i'r afael â thlodi plant

Camau gweithredu 2012-2015	Canlyniadau dymunol
Datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr ar faterion tlodi plant a chodi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad.	Staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr yn teimlo perchnogaeth dros y materion, a theimlo bod modd iddynt wneud gwahaniaeth. **Mesur:** niferoedd sy'n cael eu hyfforddi ac effaith hyfforddiant drwy dystiolaeth bersonol.
Cynnal archwiliad ac adolygu meysydd gwasanaeth allweddol yr amgueddfa i ymwelwyr ar y safleoedd, o safbwynt tlodi plant.	Plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel ac sy'n ymweld ag amgueddfeydd cenedlaethol yn derbyn croeso cynnes, cyfeillgar ac yn dod o hyd i'r gwasanaethau angenrheidiol i gefnogi eu hymweliad. **Mesur:** tystiolaeth bersonol.
Dogfennu ein profiadau drwy astudiaethau achos a gwerthuso priodol, a rhannu arfer da yn y sector amgueddfa a threftadaeth ledled Cymru, fel rhan o'n hymrwymiad at rannu sgiliau drwy Strategaeth Amgueddfeydd Llywodraeth Cymru gan weithio gyda CyMAL a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru. Sefydlu projectau gyda Phrifysgolion a Cholegau yng Nghymru i ymchwilio a dogfennu arferion.	Rhannu arfer da ar draws y sector yng Nghymru, y DU a thu hwnt. **Mesur:** cyhoeddi astudiaethau achos a chynnal sesiynau rhannu sgiliau.
Datblygu rhaglen waith allgymorth i godi ymwybyddiaeth a herio rhagdybiaethau o amgueddfeydd a gweithwyr amgueddfa, drwy fynychu cyfarfodydd grwpiau cymunedol i hyrwyddo gwaith yr Amgueddfa gan gynnwys swyddi gwag a chyfleoedd gwirfoddoli, mynychu digwyddiadau gyrfaoedd ysgolion mewn ardaloedd â lefelau uchel o dlodi plant e.e. ffeiriau gyrfaoedd, ffug gyfweliadau, diwrnodau diwydiant gyda grŵp amrywiol o aelodau staff (i herio rhagdybiaethau am y mathau o bobl sy'n gweithio mewn amgueddfeydd).	Gwell dealltwriaeth o yrfaoedd mewn amgueddfeydd ymysg pobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel. **Mesur:** tystiolaeth bersonol yn dilyn gwaith allgymorth.

Cyflawni amcan Tlodi Plant Llywodraeth Cymru: lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, **addysg** a chanlyniadau economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r tlotaf.